

**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 19eg Rhagfyr 2018 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

## **YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, R. J. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

### **100. DECHRAU'R CYFARFOD A CHYHOEDDIADAU**

Dechreuodd Caplan y Maer, Archddiacon Llanelwy, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi, a chyfeiriodd at farwolaeth drist tad Swyddog Dinesig a Gweinyddol y Cyngor Tref, Mrs Tracey Jones.

### **101. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr J. Ball, Mrs J. Butterfield YH MBE, Ms J. Hughes a Miss S. L. Roberts.

### **102. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 21ain Tachwedd 2018 - Rhifau  
Cofnod 68-80

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 21ain Tachwedd 2018 - Rhifau  
Cofnod 27-29

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J L McAlpine a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 5ed Rhagfyr 2018 - Rhifau Cofnod 30-32

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J L: McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd C L Williams a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a - 5ed Rhagfyr 2018 - Rhifau Cofnod 66-78  
Dibenion Cyffredinol

Wrth gyfeirio at gofnod rhif 79 (Ymddiheuriadau a Chyhoeddiadau) nododd y Cynghorydd K. R. Jones bod camgymeriad gan fod ei enw yn ymddangos yn y rhestr o Gynghorwyr a oedd yn bresennol ac fel un a oedd wedi cyflwyno ymddiheuriadau, a chadarnhaodd ei fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu yn amodol ar y newid uchod.

### **103. CYFLWYNIAD: GWASANAETHAU HAMDDEN SIR DDINBYCH**

Ymhellach i gofnod rhif 74 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 7fed Tachwedd 2018, croesawodd y Maer Mr Jamie Groves a Mr Graham Boase i'r cyfarfod a'u gwahodd i annerch y cyngor.

Dywedodd Mr Groves:

- Y byddai ail ymweliad i gynghorwyr y dref â safle SC2 yn cael ei drefnu yn y Flwyddyn Newydd.
- Roedd SC2 nawr dair wythnos a hanner i ffwrdd o gael ei gwblhau, yn gynt na'r amserlen ac yn llai na'r gyllideb.
- Byddai cyfleusterau parcio yn cynnwys man i fysis ollwng pobl i ffwrdd.
- Roedd mwy na 1,000,000 o bobl wedi cofrestru diddordeb yn SC2 trwy'r cyfryngau cymeithasol ac roedd llawer o deuluoedd wedi trefnu ymlaen llaw.
- Byddai'r manau awyr agored yn cael eu cwblhau ganol mis Ionawr.
- Byddai naw diwrnod 'blasu' am ddim yn cael eu cynnig i bobl leol cyn yr agoriad swyddogol i brofi'r profiad cyfan, gan roddi cyfle i ddelio ag unrhyw broblemau ymlaen llaw.
- Byddai'r elfen TAG Active y cyntaf yng Nghymru a TAG Junior y cyntaf yn y Du fel pwyntiau gwerthu unigryw.
- Roedd y ceginau yn barod ac roedd bwydlenni'n cael eu llunio.
- Byddai 90 o swyddi'n cael eu creu, yn darparu hyfforddiant a chymwysterau i rai heb lawer o brofiad ond gyda'r nodweddion personol priodol ar gyfer y swydd.
- Roedd nifer o fusnesau lleol â diddordeb mewn partneru gydag SC2 ar ôl y digwyddiad rhwydweithio llwyddiannus.

Adroddodd Mr Boase:

- Yn unol â chytundeb partneriaeth Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Tref y Rhyl mewn perthynas â SC2 roeddynt eisiau i'r Cyngor Tref fod yn ymwybodol o fodel gwahanol a oedd yn cael ei gynnig ar gyfer dyfodol y Gwasanaethau Hamdden.
- Oherwydd toriadau parhaus y Llywodraeth i gyllidebau Awdurdodau Lleol, roedd angen arbedion, ac roedd sefydlu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol (LATC) ym meddiant Cyngor Sir Ddinbych, lle byddai arbedion blynyddol ar TAW a TANC o £500,000 yn cael ei gyflawni, yn opsiwn cryf dan ystyriaeth.
- Byddai LATC hefyd yn gwneud SC2 yn fwy cystadleuol yn y farchnad gyda chyfle i dyfu a gwella.
- Byddai'r cynnig yn mynd gerbron Cabinet Cyngor Sir Ddinbych ar 22ain Ionwr, ac yna byddai briff prosiect a chynllun busnes yn cael eu cynhyrchu i'w dychwelyd i'r Cabinet ar 26ain Mawrth, cyn cael eu hystyried yn ffurfiol gan y Cyngor llawn ar 9fed Ebrill.

Dywedodd Mr Groves ymhellach:

- Y byddai'n cael ei gyflogi gan y LATC.
- Bod Gwasanaethau Hamdden Sir Ddinbych yn ffynnu.

- Byddia'r LATC yn galluogi gwneud elw, a fyddai'n cael ei ail-fuddsoddi yn y gwasanaeth.
- Os byddai'r gwasanaeth yn aros fel y mae, byddai'n cael ei gyfyngu o ran twf.
- Byddai gan Gyngor Sir Ddinbych reolaeth lwyr drwy gyfrwng cytundeb cyfreithiol blynyddol ac nid oedd yn fodel Ymddiriedolaeth fel yr oedd yn wir am Clwyd Leisure a'r Heulfan.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau gan yr aelodau, dywedodd Mr Groves a Mr Boase:

- Na fyddai gwrthdaro buddiannau i Mr Groves gan y byddai'n cael ei gyfllogi gan yr LATC ac nid gan Gyngor Sir Ddinbych bellach.
- Ni fyddai Mr Groves yn aelod o fwrdd yr LATC a'r bwrdd a fyddai'n cymryd yr holl benderfyniadau.
- Ni fyddai'r model newydd yn ail-wneud camgymeriadau'r trefniadau Ymddiriedolaeth blaenorol rhwng Clwyd Leisure a Chyngor Sir Ddinbych a gymerodd bedair blynedd i'w datrys ac a oedd wedi ei roi i ffynhonnell allanol am y rhesymau anghywir.
- Byddai'r cyfleusterau yn aros ym meddiant Cyngor Sir Ddinbych a gan y cyngor fyddai'r cyfrifoldebau cynnal a chadw, ond byddai'n cael ei weithredu gan yr LATC ar ran y Cyngor Sir.
- Roedd llwyddiant y Gwasanaethau Hamdden yn ddyledus i'r staff. Ni fyddai system staff 'dwyr reng'. Byddai'r holl staff yn mwynhau'r un amddiffyniadau a'r amodau ag o'r blaen.

Teimlai cynghorydd, nes byddai pob aelod o'r Gwasanaethau Hamdden wedi cael sgwrs am y newid gweithredol arfaethedig, y dylai gweddill y cyflwyniad ddigwydd mewn sesiwn gyfrinachol er mwyn osgoi achosi unrhyw bryderon di-angen iddyn nhw.

## **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

**PENDERFYNWYD** diolch i'r Swyddogion am eu cyflwyniad a pharhaodd y cyfarfod mewn Sesiwn Agored.

### **104. ADRODDIAD Y MAER**

Adroddodd y Maer am yr amrywiol ddigwyddiadau roedd wedi eu mynychu yn y mis diwethaf, a soniodd am fore coffi 'Diwrnod Rhuban Gwyn' Canolfan Ferched Gogledd Cymru, 'Christmas Pops' yn Eglwys Tomos Sant a pharti Nadolig blynyddol y plant yn Neuadd y Dref fel uchafbwyntiau.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.

### **105. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – RHAGFYR 2018**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau a wnaed.

Rhif Taleb	Enw Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
633	BT	129.72	Rhentu llinell rhynggrwyd
632	HSBC	11.20	Taliadau banc 17/10 i 16/11/18
634	HSBC	32.00	Ffi flynyddol cerdyn credyd
635	BT	151.68	Taliadau rhent
642	Cyngor Sir y Fflint	4,214.51	Cyfraniadau pensiwn a diffyg Tachwedd 2018
643	HMRC	2,649.15	Didyniadau cyflog Tachwedd 2018
644	Staff Cyngor Tref y Rhyl	6,888.73	Cyflogau staff Rhagfyr 2018
639	Gunsmoke Communications	1,600.00	Ffioedd rheoli digwyddiadau
475	Cyngor Sir Ddinbych	707.00	TANC ar gyfer Ffordd Wellington – taliad 9 o 10
476	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	916.66	Swyddog Apeliadau Rhan-amser – taliad 9 o 12
	<b>Cyfanswm taliadau</b>	<b>£17,300.65</b>	

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiad.

#### 106. **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B (byddai rhestr o daliadau ar rheolaidd yn cael ei rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'w ychwanegu i'r rhestr o gyflenwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r canlynol i gael eu talu a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.

Cyflenwr	Manylion Cyflenwad	Rhif Taleb	Dyddiad	Swm £
Brigâd Ambiwylans Sant Ioan	Cymorth Cyntaf ar Sul y Cofio	629	30/11/2018	50.00
Newsquest Media Group	Hysbyseb ar gyfer Cystadleuaeth Ffenestr Nadolig	630	26/11/2018	303.31
BJS Solutions	Adnewyddu Gwrth-firws	631	26/11/2018	179.94
Pottles Premier Plants	Cyflenwi Amelanchier Lamarkll	636	29/11/2018	33.90
Cyngor Sir Ddinbych	Ad-daliad Contract Cynnal a Chadw Tiroedd	637	07/12/2018	35,848.80
CIPFA	Ffi Broffesiynol A. Williams	638	09/11/2018	325.00
Cyngor Sir Ddinbych	Rhentu'r Ardd Goffa	640	01/01/2019	13.50
Cyngor Sir Ddinbych	Rhentu Lloches Bws	641	01/01/2019	1.00
<b>Cyfanswm Atodlen B</b>				<b>£36,755.45</b>

#### 107. **CYFLWYNIAD: COFNOD O FLWYDDYN YN Y SWYDD**

Dyweddodd Clerc y Dref, oherwydd marwolaeth yn nheulu'r Swyddog Dinesig a Gweinyddol a'i habsenoldeb o'r gwaith, nad oedd manylion terfynol Cofnod mewn Swydd y cyn Faer wedi eu gwneud, ac y byddai'n barod ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor.

**108. EITEM GAN AELOD: ‘Y RHYL DDI-BLASTIG’**

Adroddodd y Cynghorydd K R Jones bod y fenter wedi dewis ei logo o nifer a gyflwynwyd gan blant ysgol lleol. Roedd y logo a ddewiswyd yn ddyluniad crwbân môr trawiadol ac roedd y Cynghorydd Jones wedi dod ag ef gydag ef i'w ddangos i'r cynghorwyr.

Ychwanegodd y Cynghorydd Jones y byddai sesiwn nesaf glanhau traeth y Rhyl ar 5ed Ionawr 2019 ac yn fenter ar y cyd gyda phrosiect G2G.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr wybodaeth.

**109. EITEM ER GWYBODAETH: CAIS I GYFLWYNO I'R CYNGOR GAN GYNGOR SIR DDINBYCH, MR EMLYN JONES A MR MIKE JONES AR: DREFNIADAU TALU AM BARCIO AC ARIANNU YN Y DYFODOL**

Dywedodd Clerc y Dref bod y cais wedi mynd trwy'r Cynghorydd B. Jones ac yn cyfeirio at gyflwyniad i ddiweddarau'r Cyngor Tref ar ddatblygiadau SC2 i gyfarfod Ionawr 2019 y Cyngor.

Holodd Clerc y Dref os oedd yr aelodau'n teimlo bod angen hyn o hyd o ystyried y cyflwyniad a gafwyd gan Mr Groves a Mr Boase yng nghyfarfod heno?

Os oedd yr aelodau'n cytuno, gellid cynnig yr amser yn y cyfarfod i Mr E. Jones a Mr M. Jones?

**PENDERFYNWYD** cynnig amser cyflwyniad SC2 cyfarfod mis Ionawr y Cyngor i Mr E. Jones a Mr M. Jones.

**110. HOLI AC ATEB**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**111. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

**112. ADRODDIAD RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS**

Yn unol â pholisi'r Cyngor Tref, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a chadarnhaodd nad oedd enwebiadau wedi eu cyflwyno i'w hystyried ar gyfer 2018.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.

**113. CYLLIDEB FLYNYDDOL**

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 5ed Rhagfyr 2018, gofynnodd Clerc y Dref am gael cymeradwyo argymhellion y gyllideb yn ffurfiol, a'r cynllun ariannol pum mlynedd i adfer cronfeydd wrth gefn y Cyngor; i godi praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/2020 a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor:

(a) Yn cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor ac yn codi praesept o £543,423 (Pum Cant a Phedwar Deg Tri o Filoedd, Pedwar Cant a Dau Ddeg Tri o Bunnau) ar Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1af Ebrill 2019, a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny; a

(b) cymeradwyo Cynllun Cronfeydd Wrth Gefn Pum Mlynedd.

**114. EGWYL Y NADOLIG – DIRORWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Gofynnodd Clerc y Dref am gymeradwyaeth yr aelodau i'r trefniadau ar gyfer dirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â chadeiryddion priodol yn ystod y cyfnod rhwng 20fed Rhagfyr 2018 hyd at 16eg Ionawr 2019, fel a ganlyn:

Materion Dinesig	-	Maer a/neu'r Dirprwy Faer
Materion Cynllunio Cynllunio	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor
Pwyllgor CSG	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd Pwyllgor CSG
Holl Faterion Eraill	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r trefniadau.

**115. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: .....

Dyddiad: .....